

RHOI RHYDDID I'CH LAWNT

gyda #MaiDiDor

Beth yw Mai Di Dor?

Cais blynyddol Plantlife am i chi roi eich peiriannau torri gwair dan glo ac ymatal rhag torri eich gofod gwyrdd yn ystod mis Mai er mwyn gadael i laswellt tal a phlanhigion gwyllt dyfu yn naturiol. Yn rhoi'r hwb y mae ei wir angen i blanhigion gwyllt a bywyd gwyllt drwy gydol yr haf.

Pam ddylwn i gymryd rhan?

Gyda mwy na 23 miliwn o erddi yn y DU, mae hyd yn oed y darnau lleiaf o laswellt yn cyfrif am gyfran sylweddol o'n tir ni sydd, o'i reoli'n iawn, yn gallu sicrhau budd aruthrol i fyd natur, cymunedau a'r hinsawdd.

Sut mae cymryd rhan?

Mae'n syml iawn. Dyma pam mae Plantlife yn galw ar bawb i gymryd rhan. Dewiswch beidio â thorri rhai o'ch llefydd gwyrdd, neu bob un ohonyn nhw, yn ystod mis Mai. Drwy dorri'n llai aml ac yn hwyrach, byddwch yn gadael i blanhigion gwyllt gael y blaen ar yr haf, felly eisteddwch yn ôl a gwyliwch y blodau'n tyfu.

Ymunwch â mudiad Mai Di Dor yn
plantlife.org.uk/nomowmay

